| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Mawrth 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Elen Heaton |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Ann Lloyd |
| **Awdur yr adroddiad** | Katie Newe |
| **Teitl:** | Adroddiad Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) - Cysgod y Gaer |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Arolwg AGC a gynhaliwyd yng Nghysgod y Gaer a gwblhawyd ar 1 Awst 2024 (Atodiad 1).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ynglŷn ag Arolwg AGC a gynhaliwyd yng Nghartref Gofal, Cysgod y Gaer.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, wedi deall ac wedi ystyried cynnwys yr adroddiad.

3.2. Bod y Pwyllgor yn ystyried a oes meysydd sydd angen eu craffu ymhellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Cysgod y Gaer, yn gartref gofal preswyl ar gyfer oedolion dros 18 oed, mae gofod gwely ar gael ar gyfer hyd at 30 o unigolion.

4.2. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ym mis Mawrth 2022.

4.3. Cynhaliwyd yr Arolwg ar y safle am ddiwrnod, roedd cyfarfod dilynol rhwng yr arolygydd, y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol ar 15 Awst, gyda'r Rheolwr Cofrestredig yn darparu rhagor o wybodaeth fel y ceisiwyd. Rhannwyd yr adroddiad drafft gyda CSDd ar 1 Tachwedd a'i gyhoeddi ar wefan AGC wedi hynny.

4.4. Crynodeb o ddarganfyddiadau adroddiad AGC;

*Mae'r unigolion sy'n byw yng Nghysgod y Gaer yn fodlon â'r gofal y maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff am eu hymagwedd ofalgar a pharchus. Roeddent yn hapus bod modd iddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, eu dewis iaith, gan fod y staff yn medru'r Gymraeg. Mae digon o gyfleoedd i breswylwyr fynegi eu safbwyntiau; maent yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r rheolwr sy'n ceisio eu barn ar bethau fel gweithgareddau a bwyd. Mae staff y gegin yn darparu dewis bob pryd bwyd a gall pobl ddewis ble i dreulio'r diwrnod. Gwnaed newidiadau i'r cartref i gynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae un ystafell wedi'i haddasu i ddarparu therapi, triniaeth neu drin gwallt; prynwyd bleind a llenni newydd a darperir dodrefn y gellir ei gloi. Mae ardaloedd eistedd pren â tho wedi'u gosod y tu allan er mwyn i bobl allu eistedd dan gysgod yn yr awyr agored. Mae'r holl staff wedi'u gwirio'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y cartref ac maent oll yn derbyn yr hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Roedd yr arolwg yn nodi problemau posibl gydag effeithiolrwydd y lefelau staffio presennol ac mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol wedi mynd ati ar unwaith i adolygu hyn.*

4.5. Nodwyd un maes a oedd angen ei wella;

*"Mae'r staff a'r preswylwyr wedi codi materion sy'n nodi nad yw'r lefelau staffio'n effeithiol bob amser. Mae'n rhaid i'r darparwr fod yn fodlon bod digon o staff wedi'u cyflogi bob amser er mwyn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau a diwallu eu hanghenion yn brydlon."*

4.6. O dan Arweinyddiaeth a Rheoli, mae'r adroddiad yn nodi:

*"Ar ddiwrnod yr arolwg, roedd pobl yn eu gwlâu am 11:00am, cadarnhaodd y staff y byddai dau o'r rhain wedi codi fel arfer, ond roedd y staff yn hynod brysur. Roedd un aelod o staff yn brysur gyda'r meddyginiaethau sy'n cymryd oddeutu awr a hanner, ac roedd sawl preswylydd angen mwy nag un aelod o staff i'w helpu i godi. Dywedodd un preswylydd fod yn rhaid iddynt aros am gymorth ar brydiau gan fod y staff yn brysur. Roedd cofnodion y cyfarfodydd yn nodi bod staff wedi mynegi pryderon am y lefelau staffio'n flaenorol, ac nad oes ganddynt amser i sgwrsio â phreswylwyr. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cymryd camau i adolygu'r lefelau staffio. Er nad oes angen unrhyw gamau ychwanegol ar unwaith, mae hyn yn faes i'w wella, a byddwn yn disgwyl i'r darparwr weithredu".*

4.7. Yn dilyn y cyfarfod dilynol ar 15 Awst, eglurodd y Rheolwr Cofrestredig i'r Arolygydd y cynhaliwyd yr arolwg ar ddiwrnod hynod o brysur a bod yr arolwg yn golygu nad oedd modd i'r Rheolwr Cofrestredig gefnogi'r gofalwyr yn eu gwaith yn unol â'r trefniadau ar gyfer y diwrnod hwnnw, yn hytrach roedd gofyn iddynt gynorthwyo gyda'r arolwg. Rhoddodd y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol sicrwydd y byddent yn parhau i fonitro lefelau staffio ac yn ceisio adborth pellach gan staff a phreswylwyr am eu safbwyntiau o ran lefelau staffio. Mae'r Rheolwr Cofrestredig, y Rheolwr Cynorthwyol a'r Unigolyn Cyfrifol yn awr yn cadw cofnod arsylwi mewn perthynas â lefelau staffio, nid yw hyn wedi nodi unrhyw broblemau staffio. Bydd y gwaith monitro'n parhau ynghyd ag archwiliadau ansawdd a gwiriadau presennol. Mae'r Rheolwr Cofrestredig yn nodi bod morâl y staff yn dda

ar hyn o bryd. Mae'r preswylwyr yn darparu adborth cadarnhaol yn gyson i'r staff a'r Rheolwr Cofrestredig, ac i'r Unigolyn Cyfrifol pan fyddant ar y safle.

4.8. Roedd meysydd a amlygwyd yn yr adroddiad yn cynnwys;

**Lles;** *Mae pobl yn derbyn cefnogaeth i fod yn hapus ac yn iach. Mae eu lles corfforol a meddyliol yn cael ei fonitro, ac fe geisir cyngor gweithwyr iechyd proffesiynol pan fo'r angen. Mae'r prydau bwyd yn faethlon a chytbwys ac fe ddarperir ar gyfer diet arbennig. Gofynnir i bobl beth sy'n bwysig iddynt, sut maent eisiau derbyn cefnogaeth, beth sy'n eu gwneud yn hapus a beth nad ydynt yn ei hoffi, er mwyn i'r staff allu darparu cefnogaeth yn effeithiol. Mae pobl yn cyflawni eu bywydau o ddydd i ddydd fel y dymunent, ac maent yn hapus yng Nghysgod y Gaer.*

**Gofal a Chefnogaeth;** *Mae pobl yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt ac y maent yn ei ffafrio oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i ddylunio mewn ymgynghoriad â'r unigolyn. Bu i ni weld proffiliau personol o fewn cofnodion gofal sy'n nodi dewisiadau penodol yr unigolion. Dywedodd y preswylwyr y gofynnir iddynt beth y maent ei eisiau amser bwyd a gallant ddewis o ddau opsiwn neu rywbeth hollol wahanol os dymunent. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr, ac fe geisir eu safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth megis bwyd, gweithgareddau ac addurniadau. Mae'r unigolion yn canmol y staff am eu caredigrwydd a'u hymagwedd barchus. Dywedodd un, 'mae hwn yn gartref hyfryd gyda staff hyfryd.'Mae mwyafrif y preswylwyr a'r staff yn siarad Cymraeg ac felly mae modd i bobl gyfathrebu yn eu dewis iaith.*

**Amgylchedd;** *Cedwir y cartref yn ddiogel drwy gynnal archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd i wirio nad oes unrhyw feysydd sydd angen sylw. Bu i ni weld bod gwaith glanhau a gwiriadau diogelwch wedi'u trefnu'n ddyddiol yn y gegin i sicrhau hylendid da a chydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi lefel 5 ar gyfer y gegin yn ddiweddar, y lefel uchaf posib'. Bu i ni weld ystod o wiriadau diogelwch i fonitro hylendid dŵr, gosodiadau gwifrau trydanol, diogelwch tân gan gynnwys offer a phrofion. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwaith atgyweirio sy'n cael ei nodi gan staff yn derbyn ymateb cyflym gan yr unigolyn a gyflogir i gyflawni gwaith cynnal a chadw. Mae gan bob person gynllun personol gadael mewn argyfwng ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch.*

**Arweinyddiaeth a Rheoli;** *Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau yn y cartref i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â Chysgod y Gaer bob tri mis i wirio bod pobl yn hapus yma a bod y gwasanaeth yn perfformio ac yn datblygu fel y disgwyl. Yn ystod yr ymweliad, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff. Maent yn cwrdd â'r rheolwr ac yn cynnal archwiliadau ar sampl o gofnodion, gweithdrefnau a'r amgylchedd. Mae'r rheolwr yn cwrdd yn rheolaidd gyda staff gofal, ac mae gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo ar ddechrau pob sifft, fel bod y staff yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau a newidiadau. Mae gan y rheolwr amserlen o archwiliadau i gynorthwyo i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu fel y dylai.*

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

5.1. **Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar,** mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chefnogaeth i breswylwyr y cartref, gan sicrhau bod eu hiechyd a'u lles yn cael ei gynnal.

5.2. **Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;** *darganfu'r arolwg bod y gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, nodi a diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.*

5.3. **Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad,** mae adroddiad yr arolwg yn cydnabod fod gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig drefniadau yn eu lle i sicrhau bod y cartref yn gweithredu'n unol â'r canllawiau statudol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1. Amherthnasol

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Amherthnasol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Amherthnasol

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg nad oes digon o staff yn y gwasanaeth fel yr amlygwyd yn adroddiad yr arolwg. Mae'r Rheolwr Cofrestredig yn adolygu rotas staff yn unol ag anghenion y preswylwyr presennol. Ers yr arolwg, mae'r Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol wedi monitro lefelau staffio'n ofalus ar gyfer pob sifft dros gyfnod o bum mis, mae'r ddau wedi cysgodi staff, a gweithio gyda nhw am gyfnodau hir. Mae morâl y staff yn dda. Mae'r Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol yn fodlon bod digon o staff er mwyn diwallu canlyniadau'r preswylwyr yn brydlon.